

## ❖ GWEDDIAU'R ADFENT

**Hiraethwn am gael dy gyfarfod, a thyrd i'n bywydau i'n hysgwyd a'n herio:**

Dduw y tlodion,  
 hiraethwn am dy gyfarfod,  
 ond bron â'th gollu wnawn;  
 ymdrechwn i roi cymorth i ti,  
 ond darganfod ein hangen a wnawn.  
 Tarfa ar ein cysur  
 â'th noethni;  
 cyffwrdd ein hunanoldeb  
 â'th dlodi,  
 tor ar draws ein heuogrwydd  
 â gras dy groeso,  
 yn Iesu Grist. Amen.

**Janet Morley**

**Cwestiwn ac ateb i Mair y forwyn:**

Dywed, Fair, pa bryd i'n llesu  
 Y derbynaiast i'th fru Iesu?  
 'Gwelais gennad Duw yn canu  
 Ger fy mron a'm syfrdanu.'  
 Dywed, Fair, pa nefol riniau  
 Ganodd Gabriel ar ei liniau?  
 'Afe, ffiol trugareddau  
 i druenus hil camwedddau.'  
 Dywed, Fair, pa orfod fu  
 Iti dderbyn Duw i'th fru?  
 'Rhydd y creodd Duw bob oed,  
 Ni thresbasodd ef erioed.'  
 Henffych well, O ufudd eiddgar,  
 Syndod y seraffiaid treiddgar,  
 Mam a morwyn, dôr a ffynnon  
 Y Goleuni a ddaeth i ddynion. Amen.

**Saunders Lewis**

**Paratown ein hunain ar gyfer dyfodiad Iesu:**

Diolchwn i ti, O Arglwydd, am roi i ni dy Fab Iesu Grist,  
 a ddaeth atom yn ostyngedig yn nhlodi Bethlehem.  
 Wrth i ni baratoi i ddathlu ei eni,  
 glanha ein calonnau a'n bywydau  
 er mwyn i ni allu ei groesawu'n llawen  
 yn Waredwr ein bywyd,  
 a phan ddaw mewn gogoniant  
 y byddwn yn bobl barod iddo ef,  
 sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân  
 byth heb ddiwedd. Amen.

**Frank Colquhoun**

**Boed i wawr ei bresenoldeb dorri ar ein byd:**

Dihuna  
 dy fyd cysglyd,  
 Dduw'r Adfent,  
 i gyfarch  
 gwawr dy bresenoldeb  
 â llawenydd llygad agored.  
 Cyhoedda eto  
 mewn gair a chân  
 dy fwriad tragwyddol  
 i gau'r llwybr  
 sy'n arwain i ddisberod  
 a gwneud y ffordd sy'n arwain i'r uchelder  
 yn ddiogel. Amen.

**David Jenkins****Daethost i'r byd yn gyflawniad o broffwydoliaeth, yn wireddiad o bwrpas Duw ac yn fynegiant o'i gariad:**

Ein Harglwydd Iesu Grist,  
 rydym yn cofio heddiw  
 sut y bu i nifer edrych ymlaen at dy ddyfodiad,  
 ond cofiwn hefyd  
 fod parhau i gredu wedi mynd yn fwy anodd  
 wrth i'r blynyddoedd lithro heibio;  
 sut y bu i obaith gychwyn cloffi a breuddwydion ddechrau marw,  
 nes, yn y diwedd, fe ddaethost –  
 yn gyflawniad o'r broffwydoliaeth,  
 yn wireddiad o bwrpas Duw,  
 yn fynegiant pendant o'i gariad. Amen.

**Eirian a Gwilym Dafydd****Gweddi ar Ddechrau'r Adfent:**

Erbyn hyn, ein Tad, yr ydym yn dechrau meddwl am y Nadolig. Anrhegion a chardiau, addurniadau a dramâu'r geni, paratodau yn y cartref, y capel, yr eglwys a'r ysgol: edrychwn ymlaen oherwydd y mae hyn i gyd yn dwyn hapusrwydd arbennig. Wrth i ni gael ein hatgoffa am enedigaeth Iesu, cymorth ni i ddeall yr hyn a wnawn, ac i weld pwysigrwydd yr hyn sydd y tu ôl i'n gweithgareddau a'n paratodau. Boed i ni fod yn barod i groesawu'r Nadolig pan ddaw, fel y cofiwn enedigaeth Iesu gyda diolchgarwch mawr, gan glywed eto neges dy gariad; Haleliwia! Amen.

**R. Chapman a D. Hilton**